| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 9 Medi 2020 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Julian Thompson Hill |
| **Awdur yr Adroddiad** | Steve Gadd, Pennaeth Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo |
| **Teitl** | Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2019/20 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae gan y cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu datganiad o gyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifyddu cymeradwy. Rhaid i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan aelodau etholedig ar ran y cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar gyfer 2019/20, yn amodol ar archwiliad, gan y Pennaeth Cyllid ar 15 Mehefin (3 Mehefin diwethaf). Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 8 Gorffennaf 2020 ac roeddent yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio rhwng 3 Awst a 28 Awst. Roedd y dyddiadau hyn yn hwyrach na'r arfer oherwydd y cyfyngiadau cyfredol sy'n gysylltiedig â Cofid 19.

Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig yn ffurfiol, sy'n cynnwys barn yr archwilydd allanol, erbyn 15 Medi. Mae cymeradwyaeth y cyfrifon archwiliedig wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio.

Cynhyrchir y Datganiad Cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn cynhyrchu'r Cod Ymarfer sy'n seiliedig ar IFRS ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol ac mae'r cyngor wedi cynhyrchu cyfrifon 2019/20 yn unol â'r Cod.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys barn archwilio ddiamod a thystysgrif archwilio. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn diweddaru'r Pwyllgor os oes unrhyw faterion newydd i adrodd arnynt.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2019/20 (gweler Atodiad 1). Yn y cyfarfod, bydd yn ofynnol i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cyllid lofnodi'r Cyfrifon a'r Llythyr Cynrychiolaeth.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cynhyrchwyd y cyfrifon a gyflwynwyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu gofynnol.

Mae Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn gyfres o safonau cyfrifyddu a ddefnyddir ledled y byd. Datblygwyd IFRS ar gyfer y sector preifat ond mewn theori mae mwyafrif helaeth y trafodion yr un peth yn nhermau cyfrifyddu waeth beth fo'r sector. Gan fod rhai meysydd lle mae triniaeth gyfrifyddu sector cyhoeddus yn gwyro oddi wrth IFRS (oherwydd er enghraifft gofynion deddfwriaethol), cyflwynwyd set ychwanegol o safonau i ddelio â'r darpariaethau hyn o'r enw Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol y Sector Cyhoeddus.

Roedd y cyfrifon ar gael i'w harchwilio yn ôl yr angen ac maent wedi bod yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio. Archwiliwyd y cyfrifon gan Swyddfa Archwilio Cymru a fydd yn cyflwyno trosolwg o'u canfyddiadau ac asesiad o'r broses mewn adroddiad i'r pwyllgor. Mae'r Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol yn ffurfio Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

Arweiniodd y broses archwilio at rai addasiadau technegol a chywiriadau a diwygiadau eraill. Bydd mwy o fanylion am y rhain yn cael eu cyflwyno yn adroddiad yr archwilydd.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol i Lywodraethu Corfforaethol, mae'r dyddiadau cau statudol ar gyfer Llywodraeth Leol yn cael eu dwyn ymlaen fel y manylir yn y tabl isod:

| | Current Dates | ORIGINAL Interim Dates for SofA 2018/19 and 2019/20 | REVISED COVID DATES FOR 2019/20 | Final Position from 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| **Final date on which the Chief Finance Officer must sign and date the statement of accounts** | 30th June | 15th June | 31st August | 31st May |
| **Date that council must approve and publish an audited statement of accounts** | 30th September | 15th September | 30th November | 31st July |

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y cyngor ac felly'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r cyngor.

## 6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau cost ychwanegol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Dyfarniad proffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad Effaith Llesiant ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r tîm Cyllid i sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei gwblhau'n amserol ac yn llwyddiannus. Daw barn broffesiynol o nifer o ddisgyblaethau eraill y tu hwnt i gyllid, megis cyfreithiol, prisio eiddo, AD a phensiynau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Datganiad Cyfrifon eto wedi derbyn barn archwilio ddiamod. Mae hwn yn gyflawniad sylweddol o ystyried graddfa a chymhlethdod y cyfrifon a'r anawsterau neu addasu i'r trefniant gweithio sy'n ofynnol gan gyfyngiadau Covid 19. Bydd gweithdrefnau mewnol yn

parhau i gael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod y cyngor yn parhau i ddarparu datganiadau ariannol o ansawdd uchel. Bydd hyn yn ystyried y materion sy'n codi o'r archwiliad a godwyd yn yr adroddiad archwilio.

Mae'n braf hefyd bod y cyfrifon drafft wedi'u paratoi ac yn barod i'w harchwilio o fewn y dyddiad cau cynharach, 15 Mehefin. Bydd gwaith yn parhau i ddod â'r dyddiad cwblhau ymlaen er mwyn i'r Cyngor fod mewn sefyllfa i gyflawni'r dyddiad cau ar 31 Mai ar gyfer set cyfrifon 2020/21.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau

Byddai'r cyngor yn torri ei ddyletswydd statudol pe na allai gymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Tachwedd.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofynnol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn iawn. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i'r Archwilydd Penodedig archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi'u cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018.

Tynnodd llawer o Awdurdodau Lleol sylw at y pwysau gwaith difrifol a orfodwyd gan yr ymateb ariannol i Covid 19 a buont yn lobïo am estyniad ffurfiol o'r dyddiad cau ar gyfer cyfrifon 2019/20. Er ei fod yn hwyr yn y broses derbyniwyd llythyr ar 30 Ebrill 2020 gan Lywodraeth Cymru at Gyfarwyddwyr Cyllid yn cadarnhau'r canlynol:

“Er mwyn darparu rhywfaint o sicrwydd a fframwaith ar gyfer cwblhau’r cyfrifon blynyddol, rydym yn argymell bod awdurdodau Cymru yn mabwysiadu amserlen ar gyfer cyfrifon 2019-20 yn unol â’r gofynion diwygiedig yn Lloegr. Bydd hyn yn gofyn am baratoi ac ardystio cyfrifon drafft erbyn 31 Awst 2020 a chyhoeddi cyfrifon archwiliedig terfynol erbyn 30 Tachwedd 2020 ar gyfer pob corff llywodraeth leol yng Nghymru. Byddem yn annog cynghorau i gymeradwyo'n gynharach lle bynnag y bo modd ac ymgysylltu â'u harchwilwyr i helpu i reoli'r pwysau cyffredinol ar Archwilio Cymru. Os ydyn nhw'n gweithio tuag at yr amserlen ddiweddarach hon, bydd angen i gyrff sicrhau eu bod nhw'n cyhoeddi'r hysbysiadau gofynnol fel y nodir yn y Rheoliadau. "